

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 21 Medi 2015	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6362
	SeneddMCD@Cynulliad.Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Dogfennau atodol:

2 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(Tudalennau 1 – 101)

(Amser a ddynodwyd: 13.30)

Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Chris Tudor-Smith, Llywodraeth Cymru

Nia Roberts, Llywodraeth Cymru

Dewi Jones, Llywodraeth Cymru

CLA(4)–22–15 – Papur 1 – Datganiad o Fwriad Polisi

CLA (4)–22–14 – Papur 2 – Llythyr gan y Llywydd mewn perthynas â'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

CLA (4)–22–15 – Papur Briffio'r Gwasanaeth Ymchwil

CLA (4)–22–15 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol



3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 102 – 104)

CLA(4)-22-15 – Papur 3 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Dogfennau atodol:

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

CLA576 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2015

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 2 Medi 2015; Fe'i gosodwyd ar: 4 Medi 2015; Yn dod i rym ar: 28 Medi 2015

CLA577 – Rheoliadau Prynu Tybaco, Cynhyrchion Nicotin etc. drwy Ddirprwy (Hysbysiad Cosb Benodedig) (Cymru) 2015

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 4 Medi 2015; Fe'u gosodwyd ar: 10 Medi 2015; Yn dod i rym ar: 1 Hydref 2015

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA578 – Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: 11 Medi 2015; Yn dod i rym ar: 1 Rhagfyr 2015

CLA579 – Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: 11 Medi 2015; Yn dod i rym ar: 1 Rhagfyr 2015

CLA580 – Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: 11 Medi 2015; Yn dod i rym ar: 1 Rhagfyr 2015

CLA581 – Cod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol 2015 (Saesneg yn unig) ar y Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'i gwnaed ar: 11 Medi 2015

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offeryn sy'n gyfansawdd ac ar y cyd, ac sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol

CLA575 – Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Saesneg yn unig)

(Tudalennau 105 – 122)

Y weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer offeryn sy'n gyfansawdd ac ar y cyd; Fe'u gwnaed ar: 24 Awst 2015; Fe'u gosodwyd ar: 24 Awst 2015; Yn dod i rym ar: 14 Medi 2015

CLA(4)–22–15 – Papur 4 – Adroddiad

CLA(4)–22–15 – Papur 5 – Rheoliadau

CLA(4)–22–15 – Papur 6 – Memorandwm Esboniadol

CLA(4)–22–15 – Papur 7 – Nodyn Trosi

5 Papur i'w nodi

(Tudalennau 123 – 126)

CLA(4) –22–15 – Papur 8 – Llythyr gan Bruce Crawford MSP, Cynullydd Pwyllgor Datganoli Senedd yr Alban (Pwerau Pellach) Goruchwyliaeth Seneddol ac adrodd ar gysylltiadau rhynglywodraethol o dan y darpariaethau newydd ym Mil r Alban

CLA(4) –22–15 – Papur 9 – Ymgynghoriad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ar ei Ymchwiliad i'r Undeb a Datganoli

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

Yr Adroddiad Terfynol: Bil Amgylchedd (Cymru)

(Tudalennau 127 – 145)

CLA(4)–22–15 – Papur 10 – Adroddiad Terfynol

Adroddiad drafft: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(Tudalennau 146 – 168)

CLA (4) –22–15 – Papur 11 – Adroddiad Drafft ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Adroddiad drafft: Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad

(Tudalennau 169 – 274)

CLA(4)–22–15 – Papur 12 – Adroddiad Drafft

Blaenraglen Waith

(Tudalennau 275 - 277)

CLA(4)-22-15 - Papur 13 - Blaenraglen waith



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Mehefin 2015

BIL IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU)

DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru yn cael eu grymuso i'w deddfu, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei deddfu, o dan ddarpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ('y Bil'). Fe'i paratowyd er mwyn cynorthwyo pwyllgorau wrth graffu ar y Bil a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Prif ddiben y Bil yw cyflwyno newidiadau sy'n:

- Gosod cyfyngiadau ar y defnydd o dybaco a sigarêts electronig (dyfeisiau mewnanadlu nicotin) mewn manau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau i fannau agored;
- Darparu ar gyfer creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
- Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu troseddau at drefn y Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
- Gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed;
- Darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal "triniaethau arbennig" (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio);
- Cyflwyno gwaharddiad ar dyllu rhannau personol o gorff unigolyn o dan 16 oed;
- Newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol Byrddau Iechyd Lleol (BILI), i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer cyfleusterau toiledau.

Er rhwyddineb cyfeirio, mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth ar wahân ar gyfer pob darpariaeth yn y Bil sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae'n debygol y byddai nifer o'r meysydd hyn yn cael eu cyfuno ac yn cael sylw mewn set o reoliadau, er enghraifft. Bydd angen i'r Cynulliad basio nifer o'r rheoliadau hyn cyn i'r adrannau cyfatebol o'r Bil ddod i rym.

Ni fydd gweithredu rhai rhannau o'r Bil yn cynnwys cynhyrchu is-ddeddfwriaeth. Cyfeirir at y meysydd hyn ar bwyntiau perthnasol yn y ddogfen. Mae cynnwys y ddogfen hon yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarperir ym Mhennod 5 y Memorandwm Esboniadol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â rhanddeiliaid wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

RHAN 2: TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

Pennod 1 – Ysmygu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Esemptio dyfais, neu ddisgrifiad o ddyfais, o'r diffiniad o 'ddyfais mewnanadlu nicotin'
RHAN O'R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	2(2)(b)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio dyfais, neu ddisgrifiad o ddyfais, o'r diffiniad o 'ddyfais mewnanadlu nicotin' a ddarperir yn Adran 2(2). At ddiben y Bil, dyfais sy'n caniatáu mewnanadliad nicotin trwy geg offeryn (pa un a yw'r ddyfais hefyd yn galluogi unrhyw sylwedd arall i gael ei fewnanadlu hefyd ai peidio) yw 'dyfais mewnanadlu nicotin'. Mae dyfais a fwriedir i gael ei defnyddio ar gyfer tybaco sydd wedi ei danio eisoes wedi ei esemptio o'r diffiniad gan Adran 2(2)(a).</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio dyfeisiau a fyddai fel arall yn rhan o'r diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin at ddiben y Bil. Byddai hyn yn caniatáu i ddyfeisiau neu ddisgrifiadau o ddyfeisiau a fyddai fel arall yn rhan o'r diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin gael eu defnyddio mewn mangreoedd di-fwg.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae'r pŵer gwneud rheoliadau hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu esemptiadau ar gyfer dyfeisiau na fwriedir iddynt fod yn rhan o'r diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin. Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn destun y weithdrefn negyddol gan y bydd rheoliadau o'r fath yn ychwanegu manylion technegol at y diffiniad o 'ddyfais mewnanadlu nicotin' a ddarperir ar wyneb y Bil. Ceir defnyddio'r pŵer hwn i gynnig eglurder i'r drefn trwy esemptio dyfais neu ddisgrifiad o ddyfais o'r diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin yn Adran 2(2) lle y canfyddir bod dyfais o'r fath yn rhan o'r diffiniad hwnnw ond nad yw ei defnyddio'n gyhoeddus yn tansilio'r rhesymeg polisi sy'n sail i'r darpariaethau.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Pennu rhagor o ddyfeisiau sy’n galluogi i sylwedd gael ei fewnanadlu, neu ddisgrifiadau o’r dyfeisiau hynny, y gallai’r darpariaethau ar ysmegu a’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn gymwys iddynt
RHAN O’R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	3(1)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n darparu ar gyfer dyfeisiau eraill, neu ddisgrifiadau o ddyfais, y mae’r Bennod hon yn gymwys iddynt, lle maent wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Efallai y bydd dyfeisiadau ychwanegol o’r fath yn galluogi nicotin i gael ei fewnanadlu, ond efallai na fyddant. Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu sut mae Pennod 1 yn gymwys o ran unrhyw ddyfeisiau eraill o’r fath, neu ddisgrifiad o ddyfeisiau, fel y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu’n hwylus.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio’r pwerau hyn, er enghraifft, pe bai’n dod yn amlwg bod dyfeisiadau nad ydynt yn rhan o’r diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin ar hyn o bryd yn cyfrannu at ail-normaleiddio ymddygiadau ysmegu a/neu’n tansilio’r broses o orfodi’r gofynion di-fwg ac felly’n cael effaith negyddol ar iechyd pobl Cymru.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae’n bosibl y gallai rhai dyfeisiau mewnanadlu nad ydynt yn rhan o’r diffiniad o ‘ddyfais mewnanadlu nicotin’ yn y Bennod hon fodoli neu eu bod/y byddant yn cael eu datblygu gan ddiwydiant yn y dyfodol. Mae angen y pŵer gwneud rheoliadau hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw ddatblygiadau o’r fath, lle maent wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Bydd angen hyblygrwydd ar Weinidogion Cymru i ymateb i’r newidiadau hyn er mwyn sicrhau y cynhelir uniondeb y darpariaethau ar ysmegu a’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Dyletswyddau’n ymwneud â mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg
RHAN O’R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	5(2)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 5 (1) yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr mangreoedd cyhoeddus a gweithleoedd di-fwg gymryd camau rhesymol i atal ysmegu neu’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn y mangreoedd hynny.</p> <p>Mae’r pŵer hwn, yn Adran 5 (2), yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gyflwyno dyletswyddau cyfatebol ar unigolyn neu ddisgrifiad o unigolyn o ran unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol (a ddynodir drwy rinwedd Adran 8 y Bil) a cherbydau di-fwg (a ddynodir drwy rinwedd Adran 9) a ddynodir gan Weinidogion Cymru.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi dyletswydd ar reolwyr unrhyw fangre ddi-fwg ychwanegol a’r rhai sy’n gyfrifol am gerbydau di-fwg yng Nghymru i gymryd camau rhesymol i atal ysmegu neu’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn eu mangreoedd/cerbydau. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y drefn ddi-fwg yng Nghymru ar gyfer holl reolwyr mangreoedd di-fwg.</p> <p>Darperir ar gyfer pwerau o’r fath i wneud rheoliadau yn Neddf Iechyd 2006 ar hyn o bryd, ond dim ond o ran ysmegu mewn mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg; nid ar gyfer y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn lleoedd o’r fath, a fyddai hefyd yn cael eu cynnwys o dan y rheoliadau hyn.</p> <p>O ran cerbydau di-fwg, mae Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn rhoi’r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i atal ysmegu ar weithredwr, gyrrwr ac unrhyw unigolyn ar gerbyd sy’n gyfrifol am drefn a diogelwch arno. Bwriad y polisi yw parhau i wneud yr unigolion hyn yn gyfrifol mewn unrhyw gerbydau a ddynodir yn ddi-fwg.</p> <p>O ran unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol a ddynodir o dan Adran 8, bwriedir penderfynu ar sail achosion unigol pa un a ddylid rhoi’r ddyletswydd ar reolwr y mangreoedd hynny ai peidio. Felly, er enghraifft, pe bai tir ysbytai yng Nghymru’n cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru yn fangre ddi-fwg ychwanegol, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i roi dyletswydd ar reolwyr ysbytai yng Nghymru i gymryd camau rhesymol i atal ysmegu neu’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin ar dir yr ysbyty/ysbytai y maent yn gyfrifol amdanynt.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Mae angen y pŵer hwn i greu’r drosedd o fethu ag atal unigolyn rhag ysmegu neu	

ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn unrhyw fangre ddi-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg a ddynodir gan reoliadau. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau gorfodi i erlyn pobl y maent yn credu eu bod wedi cyflawni trosedd o'r fath, fel ei bod yn bosibl y byddant yn destun dirwy ar y raddfa safonol yn dilyn collfarn ddiannod.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Ar hyn o bryd, mae Adran 8(3) o Ddeddf Iechyd 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi dyletswydd ar reolwyr unrhyw fannau di-fwg ychwanegol (a ddynodir drwy rinwedd Adran 4 o Ddeddf Iechyd 2006), a'r rhai sy'n gyfrifol am gerbydau di-fwg yng Nghymru (a ddynodir drwy rinwedd Adran 5) i achosi i unigolyn sy'n ysmegu yno i roi'r gorau i ysmegu. Mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Defnyddir y pwerau hyn o ran cerbydau di-fwg yn rheoliad 7 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007.

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Ystyr “caeedig” a “sylweddol gaeedig” at ddibenion dynodi gweithleoedd a mangreoedd cyhoeddus di-fwg
RHAN O’R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	6(7)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiffinio’r hyn a olygir gan “caeedig” a “sylweddol gaeedig” at ddibenion dynodi gweithleoedd di-fwg a mangreoedd sy’n agored i’r cyhoedd.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Mae’r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i egluro pa rannau o weithleoedd a mangreoedd sy’n agored i’r cyhoedd y mae’n ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae angen y pŵer i ddarparu manylion technegol ar gyfer y cynllun deddfwriaethol. Bydd y diffiniadau a ddarperir mewn rheoliadau yn ychwanegu cywirdeb at ystyr y geiriau ‘caeedig’ a ‘sylweddol gaeedig’. Mae’r manylyn hwn yn gymharol fân yng nghyswllt y cynllun deddfwriaethol cyfan ac felly y ffordd orau o’i gyflwyno yw drwy reoliadau.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
<p>Mae Adran 2(5) o Ddeddf Iechyd 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n nodi’r hyn y mae “caeedig” a “sylweddol gaeedig” yn ei olygu. Mae rheoliadau a wneir dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn negyddol. Nodir y diffiniadau presennol o “caeedig” a “sylweddol gaeedig”, at ddibenion mangreoedd di-fwg o dan Ddeddf Iechyd 2006, yn rheoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007.</p>	

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Mangreoedd di-fwg ychwanegol
RHAN O’R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	8(1)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol

DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU

Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddynodi unrhyw lle, neu ddisgrifiad o le, yng Nghymru yn ddi-fwg. Nid oes yn rhaid i’r lleoedd di-fwg ychwanegol fod yn gaeedig neu’n sylweddol gaeedig ac mae’n rhaid nad ydynt eisoes wedi eu dynodi’n ddi-fwg gan y Bil. Mae bod yn ‘ddi-fwg’ yn y darpariaethau hyn yn golygu na chaniateir ysmegu a’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, oni bai fod esemptiad yn gymwys. Mae’r rheoliadau’n caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried yr amgylchiadau, yr amseroedd, yr amodau a/neu’r ardaloedd lle dylai unrhyw fangreoedd ychwanegol fod yn ddi-fwg ar sail achosion unigol.

Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau i statws di-fwg unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol. Er enghraifft, gallai’r rheoliadau ganiatáu i’r unigolyn sy’n gyfrifol am y fangre ddi-fwg ddynodi manau lle caiff ysmegu neu’r defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin ei ganiatáu. Byddai’n rhaid i’r dynodiad gyd-fynd ag unrhyw amodau a nodir yn y rheoliadau.

O dan y pŵer hwn, ni chaiff y fangre ddi-fwg ychwanegol fod yn annedd breifat (Sylwer. Mae anheddau preifat sy’n cael eu defnyddio fel gweithle neu sy’n agored i’r cyhoedd wedi eu cynnwys o dan Adrannau 6 a 7.)

Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dynodi mangre ddi-fwg ychwanegol dim ond lle maent yn fodlon bod dynodi’r lle hwnnw’n ddi-fwg yn debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru.

BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu mangreoedd di-fwg ychwanegol lle mae gwneud hynny’n debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru. Y bwriad yw creu manau di-fwg ychwanegol nad ydynt yn gaeedig a allai gynnwys, ond nad ydynt wedi’u cyfyngu i, dir ysbyty, tir ysgol a meysydd chwarae plant. Bydd y pŵer i wneud rheoliadau hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu i fannau o fewn y mangreoedd di-fwg ychwanegol hynny i gael eu hesemptio o’r gofynion di-fwg lle maent wedi’u dynodi felly gan reolwr y mangreoedd hynny.

Y bwriad polisi presennol yw na fydd unrhyw rwymedigaeth ar yr unigolyn sy’n gyfrifol am y fangre ddi-fwg ychwanegol i ddynodi manau o fewn y fangre lle nad yw’r gofynion di-fwg yn gymwys, oni bai bod hynny o dan amgylchiadau penodol a bennir gan Weinidogion Cymru. Felly, er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru’n gwneud rheoliadau ar gyfer tir ysbyty di-fwg, gallai’r rheoliadau ddarparu y caiff rheolwr yr ysbytai hynny ddynodi manau ar y tir lle caniateir ysmegu a/neu’r defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin. Byddai’n rhaid i unrhyw ddynodiad gydymffurfio â gofynion penodol yn y rheoliadau.

Mae'r pŵer yn caniatáu hyblygrwydd i wneud rheoliadau ar leoedd ychwanegol nad ydynt yn gaeedig yn y dyfodol os bydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gwneud hynny'n debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Mae angen y pŵer hwn i barhau i sicrhau nad yw ymddygiadau ysmegu'n cael eu hail-normaleiddio, na'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn cael ei normaleiddio, trwy ganiatáu ysmegu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mannau penodol nad ydynt yn gaeedig; yn enwedig y rhai lle mae plant a phobl ifanc yn aml yn bresennol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Mae'r pwerau hyn yn wahanol i'r rhai o dan Adran 4 o Ddeddf Iechyd 2006, lle gall Gweinidogion Cymru ddynodi lle di-fwg ychwanegol (o ran ysmegu, nid y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin) yng Nghymru dim ond os oes, yn eu barn nhw, perygl sylweddol y byddai unigolion sy'n bresennol yn y lle yn cael eu hamlygu i lawer iawn o fwg heb y dynodiad. Mae rheoliadau a wneir dan Adran 4 o Ddeddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Nid yw pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o'r fath wedi'i ddefnyddio eto.

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Cerbydau di-fwg
RHAN O’R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	9(1)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n darparu ar gyfer cerbydau i fod yn ddi-fwg. Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i’w gwneud yn ofynnol i fathau penodol o gerbydau i fod yn ddi-fwg, i bennu’r amgylchiadau lle mae cerbydau’n ddi-fwg, i ddarparu y dylai’r cerbyd fod yn ddi-fwg pan fo wedi ei leoli mewn ardaloedd penodol ac i wneud esemptiadau i unrhyw un o’r gofynion hyn. Gall Gweinidogion Cymru ddynodi cerbyd yn ddi-fwg dim ond pan fyddant wedi’u bodloni bod gwneud hynny’n debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Mae ysmegu a’r defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin wedi eu gwahardd mewn cerbyd di-fwg, oni bai bod Gweinidogion Cymru’n gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer esemptiadau (e.e. i ganiatáu’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin).</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu trefn ddi-fwg ar gyfer cerbydau yng Nghymru sy’n benodol i fathau penodol o gerbydau, a manylion pryd a ble y mae’n rhaid iddynt fod yn ddi-fwg. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd fel y gellir addasu’r drefn ar gyfer cerbydau di-fwg ar gyfer sefyllfaoedd penodol.</p> <p>Bwriad y polisi yw y dylai’r holl gerbydau a ddefnyddir ar gyfer cludo’r cyhoedd neu at ddibenion gwaith gan fwy nag un person fod yn ddi-fwg drwy’r amser.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw’n fwriad i’r polisi ei gwneud yn ofynnol i gerbydau preifat, gan gynnwys cerbydau rhent preifat, fod yn ddi-fwg oni bai eu bod yn cludo unigolion dan 18 oed, ac oni bai bod y trefniant rhentu preifat yn cynnwys gyrrwr, lle byddai’r trefniant rhentu’n weithle yn yr achos hwnnw ac felly dylai fod yn ddi-fwg.</p> <p>Mae bod yn ‘ddi-fwg’ yn golygu na chaniateir ysmegu a’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, oni bai bod esemptiad yn gymwys.</p> <p>Gellid defnyddio’r pŵer gwneud rheoliadau hwn i ehangu’r gwaharddiad ar ysmegu mewn ceir sy’n cludo plant, sydd wedi ei gynnwys yn Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015, a gyflwynwyd ar 5 Mai 2015 ac a drafodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Mehefin, i gynnwys gwaharddiad ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn y cerbydau hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud hynny dim ond os ydynt wedi’u bodloni bod gwneud hynny’n debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae angen y pŵer hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud y gofynion di-fwg yn gymwys i gerbydau mewn amrywiaeth o leoliadau a sefyllfaoedd. Er enghraifft, gallai’r rheoliadau ddynodi cerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yn ddi-fwg (e.e. bysiau), cerbydau sy’n weithleoedd (e.e. tacsis), a cherbydau preifat</p>	

sy'n cludo pobl o dan 18 oed.

Mae ail-ddatganiad Deddf Iechyd 2006 ac ymestyn ystyr di-fwg i gynnwys y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin yn ogystal ag ysmegu yn creu angen i ail-sefydlu'r drefn ddi-fwg ar gyfer cerbydau. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud hyn.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Mae Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn parhau i fod yn gymwys tan yr adeg y bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau hyn. Mae Adran 95 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn diwygio Adran 5 o Ddeddf Iechyd 2006 i ddarparu pwerau galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wahardd ysmegu mewn cerbydau preifat sy'n cludo unigolion o dan 18 oed. Mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn gadarnhaol.

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Esemptio mangreoedd o’r gofynion di-fwg
RHAN O’R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	10(1)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio mangreoedd, neu fannau penodedig mewn mangreoedd yng Nghymru, o’r gofyniad i fod yn ddi-fwg. Gallai esemptiadau o’r gofynion di-fwg fod yn gysylltiedig ag ysmegu a’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, ysmegu yn unig, neu’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn unig.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu ysmegu a/neu’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd cyhoeddus neu weithleoedd penodol, neu fannau penodol yn y mangreoedd hyn (h.y. eu hesemptio o’r gofynion di-fwg). Bydd hyn yn sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd yn y defnydd o’r drefn ddi-fwg yng Nghymru.</p> <p>Mae esemptiadau o’r drefn ddi-fwg bresennol yn gymwys i ystafelloedd penodol mewn cartrefi gofal, hosbisau oedolion, unedau iechyd meddwl, cyfleusterau ymchwil neu brofi, gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau. Darperir ar gyfer y rhain o dan reoliad 3 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007.</p> <p>Ceir ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco i adolygu’r esemptiad o’r gofynion di-fwg presennol ar gyfer unedau iechyd meddwl sy’n darparu llety preswyl. Y bwriad yw adolygu’r esemptiad hwn o ran ysmegu pan wneir rheoliadau dan y pŵer hwn. Y bwriad hefyd yw cadw’r holl esemptiadau eraill o ran ysmegu, ac i gynnwys y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin yn yr esemptiadau hyn. Bwriedir darparu esemptiad mewn unedau iechyd meddwl sy’n darparu llety preswyl o ran y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin.</p> <p>Ar hyn o bryd, ni fwriedir ychwanegu unrhyw esemptiadau pellach ar gyfer gweithleoedd a mangreoedd cyhoeddus at y rhai y darperir ar eu cyfer eisoes gan Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 o ran ysmegu. Mae dau adolygiad barnwrol yn ymwneud ag ysmegu mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Caiff y sefyllfa mewn carchardai o ran ysmegu a’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin ei hystyried yn dilyn canlyniad yr achosion hyn. Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gyfyngu’n llwyr ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn carchardai yng Nghymru.</p> <p>Y bwriad yw darparu esemptiadau pellach mewn mangreoedd neu rannau penodedig o fangreoedd o ran y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin yn unig - h.y. byddai’r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn cael ei ganiatáu mewn mangreoedd o’r fath er na chaniateir ysmegu. Gallai esemptiadau ychwanegol o’r fath gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i; defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin mewn rhannau penodol o fferyllfeydd (ystafell ymgyngori’r fferyllfa, er</p>	

enghraifft); neu gan berfformwyr lle mae angen dyfais mewnanadlu nicotin ar gyfer unionrwydd artistig eu perfformiad.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Mae angen y pŵer hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i eithrio lleoliadau y gellid eu hystyried yn annedd unigolyn am y tro o'r gofynion di-fwg. Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol mewn lleoliadau fel ystafell mewn gwesty neu dŷ llety, neu lle gallai fod unigolion yn cael eu cadw (fel unedau iechyd meddwl). Mae hyn yn cyd-fynd â'r bwriad polisi na ddylai'r gofynion di-fwg fod yn gymwys i anheddau preifat.

Mae angen y pŵer hefyd i eithrio cymhwysiad y gofynion di-fwg mewn gweithleoedd neu fangreoedd cyhoeddus sydd â rhesymau y gellir eu cyfiawnhau am ganiatáu ysmegu a/neu'r defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin. Er enghraifft, gallai hyn fod yn briodol mewn mangreoedd lle mae gwaith ymchwil ar roi'r gorau i ysmegu neu brofion allyriadau'n cael eu gwneud.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Mae pŵer cyfatebol i esemptio mangreoedd o'r gofynion di-fwg presennol wedi ei gynnwys yn Adran 3 o Ddeddf Iechyd 2006. Mae rheoliadau a wneir dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae Rheoliad 3 o Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007, a wnaed o dan Ddeddf Iechyd 2006, yn nodi'r mangreoedd lle gall rheolwyr ddynodi ystafelloedd ysmegu (h.y. gallant ddynodi ystafelloedd i gael eu hesemptio o ofynion di-fwg Deddf Iechyd 2006).

Mae Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn parhau i fod yn gymwys tan adeg pan fydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau hyn.

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Arwyddion di-fwg
RHAN O'R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	11(1)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion ar gyfer arwyddion di-fwg. Gallai gofynion o'r fath gynnwys sut y dylid arddangos yr arwyddion yn ogystal â manylebau'n ymwneud â dimensiynau'r arwydd, isafswm maint y testun a'r ffont, unrhyw waith graffig neu symbol y mae'n rhaid ei gynnwys ac unrhyw rybudd mandadol.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd arwyddion di-fwg yn cyfathrebu'r gofyniad i beidio ag ysmegu a defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd, lleoedd a cherbydau di-fwg. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau'n nodi manylebau technegol arwyddion di-fwg. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yr arwyddion a arddangosir.</p> <p>Y bwriad yw nodi gofynion ar gyfer arwyddion o ran y gofyniad i beidio ag ysmegu, ac ar gyfer arwyddion o ran y gofyniad i beidio â defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin. Gall y gofynion ar gyfer pob arwydd fod yn wahanol yn dibynnu a fyddant yn cael eu defnyddio mewn mangreoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig, mewn cerbydau di-fwg neu mewn mangreoedd di-fwg nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig (y cyfeirir atynt fel "mangreoedd di-fwg ychwanegol" yn y Bil).</p> <p>O ran mangreoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig, y bwriad yw i feddianwyr/rheolwyr mangreoedd o'r fath i gadw eu harwyddion di-fwg presennol at y diben o gyfathrebu'r gofyniad i beidio ag ysmegu mewn mangreoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig. Darperir ar gyfer y manylebau cyfredol ar gyfer arwyddion di-fwg mewn mangreoedd caeedig neu sylweddol gaeedig yn rheoliad 5 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007. Ni fydd y manylebau ar gyfer arwyddion o'r fath yn newid o ganlyniadau i reoliadau sy'n cael eu gwneud yn defnyddio'r pŵer newydd hwn. Ni fydd angen diweddarau na disodli'r arwyddion di-fwg presennol felly. Bydd hyn yn lleihau gwastraff ac yn caniatáu i'r symbol di-fwg rhyngwladol cydnabyddedig gael ei gadw. Bydd yr un fath yn gymwys i arwyddion di-fwg ar gyfer cerbydau di-fwg, y darperir y manylebau ar eu cyfer yn rheoliad 6 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007.</p> <p>Er mwyn cyfathrebu'r gofyniad i beidio â defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig a cherbydau, y bwriad yw y bydd y rheoliadau'n pennu gofynion ar gyfer arwyddion ar wahân i'r arwyddion di-fwg presennol. Bwriedir i'r manylebau ar gyfer yr arwydd newydd hwn fod yn debyg iawn i rai'r arwyddion dim ysmegu presennol, er y bydd angen diwygio'r ddelwedd graffig a'r testun rhyw fymryn. Bydd y ddelwedd graffig yn dangos dyfais mewnanadlu nicotin mewn cylch â bar coch yn croesi drwyddo, a bydd y neges yn adlewyrchu'r gofyniad i beidio â defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin yn y fangre. Bwriedir i arwyddion o'r fath gael eu harddangos ochr yn ochr ag arwyddion dim ysmegu presennol.</p>	

Bydd arwydd gwahanol newydd i gyfathrebu'r gofyniad i beidio â defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd di-fwg gaeedig a sylweddol gaeedig a cherbydau di-fwg yn ei gwneud yn eglur bod y gofynion mewn mangreoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig wedi newid.

Hefyd, mae angen arwyddion ar wahân i alluogi esemptiadau o'r drefn ddi-fwg o ran ysmegu, defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin, neu'r ddau. Er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer esemptiad o'r drefn ddi-fwg ar gyfer ystafelloedd ymgynghori fferyllfeydd mewn cysylltiad â'r defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin, bydd angen arwydd ar y rhannau hyn o'r fangre i gyfathrebu'r gofyniad i beidio ag ysmegu'n unig. Er na fydd hwn yn ofyniad cyfreithiol, bydd canllawiau'n cynghori ar arddangos arwydd i ddangos y caniateir y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin.

Bydd y gofynion i'r arwyddion gael eu harddangos mewn mangreoedd di-fwg nad ydynt yn gaeedig neu nad ydynt yn sylweddol gaeedig drwy rinwedd rheoliadau a wnaed o dan Adran 8 yn wahanol i'r rhai ar gyfer mangreoedd di-fwg fel yr amlinellir uchod. Y bwriad ar hyn o bryd yw defnyddio'r un ddelwedd graffig a neges; fodd bynnag, bydd gofynion eraill fel y dimensiynau a ble y dylid gosod arwyddion yn wahanol er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd nad yw'n gaeedig neu nad yw'n sylweddol gaeedig.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Mae angen y pŵer er mwyn darparu manylion technegol i'r cynllun deddfwriaethol. Mae angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o ba fangreoedd, lleoedd a cherbydau sy'n ddi-fwg gan y byddant yn cyflawni trosedd os byddant yn ysmegu neu'n defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd, lleoedd a cherbydau di-fwg o'r fath. Defnyddir y weithdrefn negyddol yma gan y bydd y rheoliadau o natur dechnegol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Mae Adran 6 o Ddeddf Iechyd 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r gofynion ar gyfer arwyddion dim ysmegu mewn rheoliadau. Mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn negyddol. Mae rheoliad 5 o Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn sefydlu'r gofynion presennol ar gyfer arwyddion dim ysmegu ar gyfer mangreoedd di-fwg, ac mae rheoliad 6 yn darparu'r gofynion presennol ar gyfer arwyddion dim ysmegu mewn cerbydau di-fwg.

Bydd Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn parhau i fod yn gymwys tan yr adeg pan fydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau hyn.

Mae'n debygol y bydd yn rhaid hysbysu am unrhyw reoliadau sy'n defnyddio'r pŵer hwn yn unol ag Erthygl 9(2) o Gyfarwyddeb 98/34/CE ("y Gyfarwyddeb Safonau Technegol"), gan y byddant yn pennu safonau technegol ar gyfer yr arwyddion ysmegu/dyfais mewnanadlu nicotin i'w defnyddio.

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Arwyddion ar gyfer mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg
RHAN O'R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	11(3)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Bydd arwyddion di-fwg yn cyfathrebu'r gofyniad i beidio ag ysmegu a defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd di-fwg yng Nghymru. Mae Adran 11(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n meddiannu neu'n rheoli mangreoedd neu weithleoedd di-fwg arddangos arwyddion di-fwg. Mae'r pŵer yn Adran 11(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi dyletswydd gyfatebol ar y rhai sy'n meddiannu neu'n rheoli mangreoedd di-fwg ychwanegol (a ddynodwyd drwy rinwedd Adran 8) a cherbydau di-fwg (a ddynodwyd drwy rinwedd Adran 9).</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i reolwyr mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg arddangos arwyddion di-fwg.</p> <p>Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn rhoi dyletswydd ar weithredwr, gyrrwr ac unrhyw unigolyn mewn cerbyd sy'n gyfrifol am drefn neu ddiogelwch ynddo i sicrhau bod arwyddion dim ysmegu'n cael eu harddangos. Nid oes unrhyw fwriad i newid y ddyletswydd bresennol hon. Yn hytrach, y bwriad y gwneud yr un unigolion yn gyfrifol am sicrhau yr arddangosir arwyddion yn ymwneud â pheidio â defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn cerbydau di-fwg.</p> <p>Pe bai Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau dan Adran 8 i ddarparu ar gyfer mangreoedd di-fwg ychwanegol, bwriedir ei gwneud yn ofynnol i reolwr neu feddiannwr y fangre ddi-fwg ychwanegol sicrhau yr arddangosir arwyddion di-fwg priodol. Er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer tir ysbytai i fod yn ddi-fwg, bydd rheolwyr yr ysbytai hynny'n gyfrifol am sicrhau yr arddangosir yr arwyddion gofynnol.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae angen y pŵer hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i reolwyr/meddianwyr mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg i arddangos arwyddion. Mae angen y pŵer hefyd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol, trwy arwyddion priodol, y dylai'r fangre ychwanegol neu'r cerbyd dan sylw fod yn ddi-fwg. Mae'r ddyletswydd gyfatebol i reolwr mannau cyhoeddus a gweithleoedd di-fwg ar wyneb y Bil ac felly'n destun craffu llawn gan y Cynulliad. Defnyddir y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir dan o Adran 11(3) er mwyn sicrhau lefel debyg o graffu gan y Cynulliad gan y bydd y rheoliadau'n rhoi dyletswydd ar reolwyr mangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	

Mae Adran 6(2) o Ddeddf Iechyd 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu ddisgrifiadau o unigolion arddangos arwyddion dim ysmegu mewn lleoedd sy'n ddi-fwg drwy rinwedd Adran 4 o'r Ddeddf honno, a cherbydau sy'n ddi-fwg drwy rinwedd Adran 5. Mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn darparu'r gofynion presennol ar gyfer arwyddion dim ysmegu mewn cerbydau di-fwg. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar weithredwr, gyrrwr ac unrhyw unigolyn mewn cerbyd sy'n gyfrifol am drefn neu ddiogelwch ynddo i sicrhau yr arddangosir arwyddion dim ysmegu.

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Awdurdodau gorfodi
RHAN O'R BIL	Pennod 1, Rhan 2
ADRAN	12(1)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddynodi personau, neu ddisgrifiadau o bersonau, yn awdurdodau gorfodi at ddibenion y Bennod hon. Mae'n rhaid i'r rheoliadau hefyd nodi'r disgrifiadau o fangreoedd, lleoedd neu gerbydau y mae awdurdod gorfodi wedi'u ddynodi iddynt. Swyddog awdurdodedig yw unrhyw unigolyn a awdurdodir gan yr awdurdod gorfodi i gyflawni ei swyddogaethau gorfodi. Gall y swyddog awdurdodedig fod yn un o swyddogion yr awdurdod gorfodi neu beidio.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd rheoliadau a wneir dan y pŵer hwn yn sefydlu pwy sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion di-fwg, a disgrifiadau o'r mangreoedd, lleoedd neu gerbydau y mae'r awdurdod gorfodi'n gyfrifol amdanynt. Y bwriad yw y bydd cynghorau sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru (awdurdodau lleol) yn cael eu dynodi'n awdurdodau gorfodi ar gyfer gorfodi'r gofynion di-fwg mewn mangreoedd cyhoeddus a gweithleoedd, yn ogystal ag unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol. Mae Adran 12(4) yn caniatáu'r awdurdod gorfodi dynodedig i wneud trefniadau gydag awdurdod gorfodi arall er mwyn i achos yr ymdriniwyd ag ef gael ei gymryd drosodd gan yr awdurdod hwnnw. Mae hyn yr un fath â'r trefniadau gorfodi presennol o dan Ddeddf Iechyd 2006.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae angen y pŵer hwn gan ei fod yn ychwanegu manylion technegol at y drefn ddi-fwg. Mae'r manylyn hwn yn gymharol fân yn y cynllun deddfwriaethol cyfredol ac felly trwy reoliadau yw'r ffordd orau o'i gyflawni.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
<p>Mae Adran 10(1) o Ddeddf Iechyd 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddynodi'r cyrff neu'r disgrifiad o gorff yn awdurdod gorfodi at ddiben Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf honno. Mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hyn yn Neddf Iechyd 2006 yn destun y weithdrefn negyddol. Mae Rheoliad 8(1) o Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn dynodi cynghorau sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru i orfodi darpariaethau di-fwg Deddf Iechyd 2006 o ran y mangreoedd a'r cerbydau sydd yn eu hardaloedd.</p> <p>O ran cerbydau preifat di-fwg sy'n cludo pobl o dan 18 oed, y bwriad, mewn Rheoliadau drafft a gyflwynwyd ar 5 Mai 2015, yw dynodi'r Heddlu yn ogystal â chynghorau sir a bwrdeistref sirol yn awdurdod gorfodi perthnasol.</p>	

Pennod 2 – Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Pennu’r awdurdod cofrestru i gynnal cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin
RHAN O’R BIL	Pennod 2, Rhan 2
ADRAN	22(2)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 22 y Bil yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod cofrestru i gynnal cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.</p> <p>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu pa sefydliad fydd yn cyflawni swyddogaeth yr awdurdod cofrestru. Mae Adran 22(8) yn darparu y gall y rheoliadau bennu Gweinidogion Cymru yn awdurdod cofrestru. Gallai hyn fod yn ofynnol i sicrhau bod y gofrestr yn parhau i fod yn weithredol.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y rheoliadau’n pennu awdurdod lleol, neu sefydliad statudol, gwirfoddol neu breifat arall, i weithredu fel awdurdod cofrestru ar gyfer cofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae ar Weinidogion Cymru angen y gallu i bennu sefydliad i gynnal y gofrestr. Yna, bydd yn ofynnol i’r sefydliad a bennir yn y rheoliadau hyn, y cyfeirir ato fel yr awdurdod cofrestru, gyflawni’r dyletswyddau sy’n ofynnol gan yr awdurdod cofrestru sydd wedi eu cynnwys ym Mhennod 2 o Ran 2 y Bil.</p> <p>Bydd angen hefyd i Weinidogion Cymru allu newid y sefydliad a enwebir fel yr awdurdod cofrestru dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i sefyllfa lle na fydd y sefydliad a enwebwyd fel yr awdurdod cofrestru yn gallu parhau i gyflawni’r swyddogaeth. Hefyd, bwriedir i’r gallu i enwebu Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod cofrestru gynnig hyblygrwydd ychwanegol er mwyn sicrhau y bydd y gofrestr yn parhau i weithredu os bydd anawsterau wrth ddod o hyd i sefydliad addas i gyflawni’r swyddogaeth hon.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Y ffurflen gais ar gyfer y gofrestr, yr wybodaeth ar y ffurflen a'r ffi gysylltiedig.
RHAN O'R BIL	Pennod 2, Rhan 2
ADRAN	23(3)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 23 y Bil yn trafod ceisiadau gan fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin i gael eu cynnwys ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys manylion am y math o wybodaeth y mae'n rhaid i gais am le ar y gofrestr ei chynnwys.</p> <p>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer ffurf y cais, sut y dylid ei gyflwyno, unrhyw wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys, ac ar gyfer ffi i gyd-fynd â'r cais.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Byddai'r rheoliadau'n darparu manylion ar sut y byddai'n ofynnol i fanwerthwr gyflwyno cais i gael ei gynnwys ar y gofrestr. Y bwriad yw y bydd modd i ymgeiswyr gwblhau cais naill ai'n electronig neu ar bapur. Ymgysylltir â rhanddeiliaid (fel adrannau safonau masnachu a manwerthwyr) er mwyn sicrhau y cesglir yr wybodaeth berthnasol a chadw'r broses ymgeisio mor syml ag sy'n bosibl.</p> <p>O ran y mathau eraill o wybodaeth i'w cynnwys ar y gofrestr, bwriedir ar hyn o bryd mai'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani fydd yr hyn a allai fod yn ddefnyddiol i leihau mynediad at gynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin i unigolion o dan 18 oed yn unig.</p> <p>Bydd y rheoliadau hefyd yn amlinellu a oes ffi'n ofynnol yn rhan o gais. Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd yn rhaid i ymgeiswyr dalu ffi fach yn rhan o gais cofrestru. Nid yw union fanylion y strwythur ffioedd wedi eu penderfynu eto, ond y bwriad ar hyn o bryd yw cael ffi o £30 i dalu am gais ac i gofrestru un fangre, â £10 arall ar gyfer pob mangre ychwanegol. Bwriedir i lefel y ffi gael ei chadw ar lefel resymol na fyddai'n afresymol i fanwerthwyr bach.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae angen y pŵer hwn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a nodir ar y gofrestr yn berthnasol, ac nad yw'r broses gofrestru'n rhy feichus i fanwerthwyr sydd angen cyflwyno ceisiadau. Bydd angen datblygu union ffurf y cais gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Hefyd, ar ôl lansio'r gofrestr, efallai y bydd angen diwygio'r ffurf neu'r fformat ar gyfer cyflwyno cais i'r awdurdod cofrestru, er enghraifft er mwyn gwella'r broses, neu ei gwneud yn gynt ac yn haws i fanwerthwyr. Ystyrir mai pwerau gwneud rheoliadau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn gan y byddant yn cynnig y lefel ofynnol o hyblygrwydd.</p> <p>Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd angen pennu neu newid lefel y ffi yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnig hyblygrwydd i'r ffi gael ei chynyddu neu ei lleihau, yn seiliedig ar newidynnau fel chwyddiant. Byddai angen i unrhyw newidiadau i'r ffi yn y dyfodol</p>	

gymryd i ystyriaeth yr angen i sicrhau bod ffioedd yn gymesur ac nid yn afresymol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Codi ffi mewn cysylltiad â diwygio’r gofrestr
RHAN O’R BIL	Pennod 2, Rhan 2
ADRAN	26(6)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 26 y Bil yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod cofrestru i ddiwygio’r gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin o dan amodau penodol fel;</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. ar ôl cael hysbysiad gan unigolyn cofrestredig i ddiwygio’r gofrestr, o ran materion a nodir yn 25 (1); neu 2. i gywiro unrhyw anghywirdebau yn y gofrestr y daw’n ymwybodol ohonynt ac eithrio drwy gael hysbysiad gan unigolyn cofrestredig. <p>Mae’r Adran yn amlinellu’r broses y mae’n rhaid i’r awdurdod cofrestru ei dilyn wrth ddiwygio’r gofrestr. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ganiatáu i’r awdurdod cofrestru godi ffi mewn cysylltiad â gwneud diwygiadau i’r gofrestr.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y rheoliadau’n pennu a all yr awdurdod cofrestru godi ffi am wneud diwygiadau i’r gofrestr, yn ogystal â lefel y ffi. Felly mae’n darparu manylion technegol cyfyngedig pellach i weithrediad y gofrestr.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Pan fydd y gofrestr yn weithredol yn y lle cyntaf, bwriedir na chodir ffi am ddiwygio’r gofrestr. Fodd bynnag, efallai y bydd angen adolygu’r safbwynt hwn ac ystyried darparu ar gyfer ffi yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi’r hyblygrwydd i ystyried y mater hwn, er enghraifft unwaith y bydd yn hysbys faint o geisiadau sy’n dod i law i ddiwygio manylion ar y gofrestr a’r baich gweinyddol y mae hyn yn ei roi ar yr awdurdod cofrestru.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Cymhwyso’r gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin i strwythurau symudol
RHAN O’R BIL	Pennod 2, Rhan 2
ADRAN	28
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae’r pŵer hwn yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i addasu darpariaeth Pennod 2 o Ran 2, gan gynnwys ei gofynion, wrth ei chymhwyso i gerbyd, stondin, pabell neu strwythur symudol (er enghraifft, trwy ei gwneud yn ofynnol i’r cais ar gyfer cofrestru stondin gynnwys gwybodaeth ychwanegol i’r hyn sy’n ofynnol ar gyfer mangreoedd manwerthu).</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Gallai rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn bennu gwybodaeth benodol y mae’n rhaid ei chynnwys mewn cais i strwythur symudol gael ei gynnwys ar y gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Bwriedir i’r pŵer gwneud rheoliadau hwn gael ei ddefnyddio dim ond os bydd angen addasu’r broses ymgeisio ar gyfer strwythurau symudol.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Ystyrir bod nodi unedau symudol, yn enwedig stondinau, yn llawer anoddach na’r mathau eraill o safle manwerthu sy’n cael eu cynnwys ar y gofrestr. Bwriedir felly i’r pŵer gwneud rheoliadau ei gwneud yn bosibl i ddiwygio’r broses ymgeisio er mwyn casglu gwybodaeth arbenigol sy’n unigryw i strwythurau symudol, ac a fyddai’n helpu asiantaethau gorfodi i ymdrin â’r math hwn o fangre fanwerthu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rhyw fath o rif masnachu unigryw i stondinau (neu unedau symudol eraill).</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Diffiniad o ‘gynnyrch nicotin’ mewn cysylltiad â’r gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin
RHAN O’R BIL	Pennod 2, Rhan 2
ADRAN	39(2)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 39 y Bil yn cynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir ym Mhennod 2 o Ran 2. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi mewn rheoliadau yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn y diffiniad o “gynnyrch nicotin” mewn cysylltiad â’r gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y rheoliadau’n pennu'r hyn sy’n “gynnyrch nicotin” mewn cysylltiad â’r gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Byddai’r rheoliadau hyn yn dynodi felly pa gynhyrchion y mae’n rhaid i fanwerthwr eu cofrestru.</p> <p>Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd y rheoliadau’n diffinio “gynnyrch nicotin” i gynnwys unrhyw gynnyrch nicotin sy’n destun cyfyngiad oedran o ran ei werthu. Ni fydd cynhyrchion nicotin nad oes ganddynt gyfyngiad oedran o ran ei werthu, neu sydd wedi eu trwyddedu fel meddyginiaethau, yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o “gynnyrch nicotin” mewn cysylltiad â’r gofrestr.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oed Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015 yn darparu manylion ynghylch pa gynhyrchion nicotin y gellir eu gwerthu i unigolion 18 oed neu hŷn yn unig. Y bwriad yw y bydd y diffiniad o “gynnyrch nicotin” mewn cysylltiad â’r gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn adlewyrchu’r rheoliadau hyn, ac felly’n eithrio cynhyrchion meddyginiaethol (er enghraifft cynhyrchion mewnanadlu nicotin sy’n feddyginiaethau trwyddedig).</p> <p>Hefyd, efallai y bydd angen diwygio’r diffiniad o “gynnyrch nicotin” yn y dyfodol i ymateb i amgylchiadau sy’n newid. Bydd hyn yn sicrhau bod y gofrestr yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol yng ngoleuni datblygiadau ym maes cynhyrchion nicotin yn y dyfodol.</p> <p>Bydd defnydd o’r pŵer yn rhoi eglurder priodol na fyddai’n cael ei gynnig fel arall.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

Pennod 3 - Gwahardd gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Ychwanegu troseddau tybaco neu nicotin newydd at drefn y Gorchymyn Mangre dan Gyfyngiad
RHAN O’R BIL	Pennod 3, Rhan 2
ADRAN	40(2)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Ar hyn o bryd, gall awdurdod lleol yng Nghymru wneud cais i’r llys ynadon i orfodi Gorchymyn Mangre dan Gyfyngiad ar fangre mewn cysylltiad â’r troseddau tybaco canlynol, lle y maent wedi’u cyflawni ar dri achlysur ar wahân dros gyfnod o ddwy flynedd;</p> <ol style="list-style-type: none">1. gwerthu unrhyw dybaco neu bapurau sigarét i unigolyn o dan 18 oed, boed at ei ddefnydd ei hun ai peidio, neu2. os profir er boddhad y llysoedd bod peiriant awtomatig ar gyfer gwerthu tybaco a gedwir yn y fangre wedi’i ddefnyddio gan unrhyw unigolyn o dan ddeunaw oed. <p>Mae gorchymyn mangre dan gyfyngiad yn gwahardd gwerthu unrhyw dybaco neu bapurau sigarét, i unrhyw unigolyn, am gyfnod penodedig o amser, yn y fangre y mae’n berthnasol iddi.</p> <p>Mae Adran 40 y Bil yn diwygio Adran 12D o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio’r diffiniad o droseddau tybaco neu nicotin. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys troseddau tybaco neu nicotin ychwanegol y gall awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Mangre dan Gyfyngiad yn eu cylch ar gyfer mangre fanwerthu yng Nghymru.</p> <p>Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu ychwanegu troseddau newydd dim ond os byddant wedi’u bodloni bod y drosedd yn un sy’n ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, cynnig ar werth, hysbysebu neu feddu ar dybaco neu nicotin, ac fe’i cosbir trwy ddirwy lefel 4 ar y raddfa safonol neu fwy.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu troseddau tybaco a nicotin pellach at y rhai sy’n gallu arwain at awdurdod lleol yn gofyn am Orchymyn Mangre dan Gyfyngiad ar hyn o bryd. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu ychwanegu troseddau newydd dim ond os byddant wedi’u bodloni bod y drosedd yn un sy’n ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, cynnig ar werth, hysbysebu neu feddu ar dybaco neu nicotin, ac fe’i cosbir trwy ddirwy lefel 4 ar y raddfa safonol neu fwy.</p> <p>Wrth ystyried y mater hwn, ymgysylltir â rhanddeiliaid fel Penaethiaid Safonau Masnachu Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i nodi’r troseddau perthnasol y dylid eu cynnwys yn nhrefn y Gorchymyn Mangre dan Gyfyngiad.</p>	

Gallai troseddau posibl y gellid ystyried eu cynnwys, yn amodol ar ymgynghoriad, gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â gwerthu tybaco anghyfreithlon neu droseddau yn erbyn y gwaharddiad arddangos.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Bydd meddu ar y pŵer i ychwanegu troseddau newydd yn sicrhau y gellir ychwanegu unrhyw droseddau yn y dyfodol sy'n bodloni'r meini prawf at y rhai y gellir gwneud cais am Orchymyn Mangre dan Gyfyngiad ar eu cyfer.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

Pennod 4 – Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18

Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bennod hon sy'n darparu ar gyfer llunio is-ddeddfwriaeth.

RHAN 3 –TRINIAETHAU ARBENNIG

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Esemptiad o’r gofyniad i gael trwydded
RHAN O’R BIL	Rhan 3
ADRAN	49(1)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O’R PŴER/RHEOLIAD/CYFEIRIADAU/CANLLAWIAU	
<p>Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n darparu bod angen trwydded triniaeth arbennig ar unigolyn sy’n aelod o broffesiwn a nodir ym mharagraffau (a) i (ga) Adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, ac a fyddai wedi ei esemptio fel arall o’r gofyniad i gael trwydded, er mwyn iddo gyflawni triniaeth arbennig benodedig. Darperir y rhestr o driniaethau arbennig yn Adran 46 ac mae’n cynnwys: aciwbigo, tyllu’r corff, electrolysis a thatŵio.</p> <p>Dyma’r proffesiynau a restrir yn Adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002:</p> <ul style="list-style-type: none">(a) y Cyngor Meddygol Cyffredinol,(b) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol,(c) y Cyngor Optegol Cyffredinol,(d) y Cyngor Osteopathig Cyffredinol,(e) y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol,(f) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol,(g) yn amodol ar Adran 26(6), Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon,(ga) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Mae’r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i’w gwneud yn ofynnol i aelodau o broffesiwn penodedig feddu ar drwydded triniaeth arbennig er mwyn cyflawni un neu fwy o driniaethau arbennig. Y bwriad yw teilwra’r rheoliadau i gymryd i ystyriaeth yr arferion y mae unigolion yn ymgymryd â hwy ym mhob proffesiwn, a’u datblygu mewn cydweithrediad â’r cyrff rheoleiddio perthnasol.</p> <p>Er enghraifft, gallai’r rheoliadau ddarparu y gallai fod yn ofynnol i aelod o broffesiwn penodedig, (fel ceiropractydd) gael trwydded triniaeth arbennig er mwyn rhoi triniaeth tyllu’r corff, electrolysis a thatŵio, ond ni fydd yn ofynnol iddo gael trwydded i ymarfer aciwbigo gan fod y corff rheoleiddio perthnasol wedi penderfynu bod cyflawni aciwbigo’n rhan o gwmpas ymarfer ei aelodau.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Bydd Gweinidogion Cymru’n cadw cyfrifoldeb am y triniaethau arbennig y gall unigolion sydd wedi eu hesemptio eu cyflawni heb drwydded triniaeth arbennig. Gan y bydd unigolion wedi’u hesemptio yn cyflawni triniaethau arbennig heb drwydded, mae’n bwysig sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni dim ond gan unigolion y dyfarnwyd eu bod yn gymwys ac yn gweithredu o fewn eu cwmpas ymarfer, fel y pennwyd gan eu corff rheoleiddio.</p>	

Mae angen y rheoliadau hefyd i gynnig hyblygrwydd a sicrhau y gellir diwygio esemptiadau dros amser.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Esemptiad o’r gofyniad i gael trwydded
RHAN O’R BIL	Rhan 3
ADRAN	49(3)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol

DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU

Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n pennu pan nad oes angen trwydded triniaeth arbennig ar unigolyn er mwyn iddo gyflawni triniaeth arbennig benodedig. Darperir y rhestr o driniaethau arbennig yn Adran 46 ac mae’n cynnwys aciwbigo, tyllu’r corff, electrolysis a thatŵio.

Gall Gweinidogion Cymru esemptio unigolyn dim ond os yw’n:

- (a) aelod o broffesiwn a bennir mewn rheoliadau neu o dan y rheoliadau (ond nid proffesiwn a reoleiddir gan gorff sy’n cael ei grybwyll ym mharagraffau (a) i (ga) Adran 25(3) o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) neu sy’n weithiwr o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau neu o dan y rheoliadau; ac
- (b) sydd wedi ei gofrestru, yn rhinwedd bod yn aelod o’r proffesiwn hwnnw neu’n weithiwr o’r disgrifiad hwnnw, mewn cofrestr gymhwysol. Cofrestr gymwys yw:
 - cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal; neu
 - cofrestr wirfoddol a achredir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol o dan Adran 25G o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 neu a bennir mewn rheoliadau neu o dan y rheoliadau.

BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bydd y rheoliadau’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod unigolyn, sy’n aelod o broffesiwn neu sydd eisoes wedi ei gofrestru â chofrestr gymwys, wedi ei esemptio o’r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig er mwyn cyflawni triniaeth arbennig benodedig.

Y bwriad yw bod y rheoliadau’n cael eu teilwra i gymryd i ystyriaeth yr arferion y mae unigolion ym mhob proffesiwn yn ymgymryd â hwy ac yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â’r corff rheoleiddio / awdurdod cofrestru. Er enghraifft, y bwriad yw y bydd ffisiotherapydd sy’n aelod o gofrestr a gedwir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd

a Gofal wedi ei esemptio o'r gofyniad i gael trwydded er mwyn ymarfer aciwbigo. Y bwriad hefyd yw i aelodau Cyngor Aciwbigio Prydain (Bac) gael eu hesemptio o'r gofyniad i gael trwydded i gyflawni aciwbigo (yn amodol ar y Bac yn cynnal ei achrediad gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol).

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Bydd Gweinidogion Cymru'n cadw cyfrifoldeb am y triniaethau arbennig y gall unigolion sydd wedi eu hesemptio eu cyflawni heb drwydded triniaeth arbennig. Gan y bydd unigolion esempt yn cyflawni triniaethau arbennig heb drwydded, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni dim ond gan unigolion y dyfarnwyd eu bod yn gymwys ac yn gweithredu o fewn eu cwrpas ymarfer fel y pennwyd gan eu corff rheoleiddio neu awdurdod.

Mae angen y rheoliadau hefyd i gynnig hyblygrwydd a sicrhau y gellir diwygio esemptiadau dros amser.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Y Cyngor Proffesiynau Lechyd a Gofal: <http://www.hpc-uk.org/>
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol: <http://www.professionalstandards.org.uk/about-us>

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Meini Prawf Trwyddedu
RHAN O'R BIL	Rhan 3
ADRAN	51(1), 51(3), 51(4)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD/CYFARWYDDYD/CANLLAWIAU	
<p>Mae'r pwerau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau y meini prawf trwyddedu y mae'n rhaid eu bodloni wrth wneud cais am drwydded triniaeth arbennig er mwyn i'r cais cael ei gymeradwyo. Caiff meini prawf trwyddedu ymwneud â (ymhlith pethau eraill):</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cymhwystra unigolyn i gael trwydded; (b) y fangre neu'r cerbyd lle y bwriedir rhoi triniaeth arbennig, neu lle y bwriedir cadw neu baratoi y cyfarpar neu'r deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer rhoi'r driniaeth arbennig (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, y cyfleusterau sydd ar gael yno a safonau hylendid); a'r (c) cyfarpar a ddefnyddir i roi triniaeth arbennig neu'n gysylltiedig â rhoi triniaeth arbennig. 	

Caiff rheoliadau a wneir o dan yr Adran hon ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r awdurdod lleol gynnal arolygiad o'r fangre neu'r cerbyd a nodir yn y cais cyn cyflwyno neu adnewyddu trwydded. Mae hyn er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i benderfynu a yw'r fangre neu'r cerbyd yn cydymffurfio â'r meini prawf trwyddedu cyn caniatáu trwydded.

Hefyd, gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, i wahanol driniaethau arbennig, ac ar gyfer y gwahanol amgylchiadau o ran rhoi triniaeth arbennig. Gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys pa mor aml neu reolaidd y caiff triniaeth ei rhoi neu'r cyfnod pan roi'r driniaeth.

Yn ogystal, caiff y meini prawf trwyddedu ymdrin â'r sail ar gyfer rhoi'r driniaeth arbennig (h.y. pa un a chaiff y driniaeth arbennig ei rhoi ar sail beripatetig, ar sail safle sefydlog, ar sail symudol, ar sail dros dro, neu fel arall), a phennu'r gofynion o ran pob arfer. Mae mwy o fanylion am y seiliau yn Adran 77(3).

Cyn gwneud y rheoliadau, mae Adran 53 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried pa un a oes pobl yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau y rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt, ac os felly, i ymgynghori â nhw os yw hynny'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â'r rhai hynny y mae'r rheoliadau'n effeithio arnynt ac yr ystyrir eu safbwyntiau cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bydd y rheoliadau yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddatblygu meini prawf trwyddedu penodol wedi eu teilwra sy'n ymwneud â thriniaeth arbennig unigol, y lleoliad lle caiff y driniaeth ei rhoi (h.y. mangre neu gerbyd), a'r sail ar gyfer roi'r driniaeth. Gan fod yr arfer o roi triniaethau arbennig yn amrywio'n sylweddol, caiff y meini prawf trwyddedu eu datblygu i ystyried yr amrywiaeth. Er enghraifft, disgwylir y bydd y meini prawf trwyddedu yn wahanol i unigolyn sy'n rhoi tatws mewn un safle o'i gymharu â'r rheiny ar gyfer sawl sy'n darparu triniaeth aciwbigo ar sail beripatetig.

Y bwriad yw y bydd y meini prawf trwyddedu yn pennu'r safonau cymhwysedd y mae'n ofynnol i unigolyn eu bodloni er mwyn cael trwydded. Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i unigolyn allu dangos bod ganddo wybodaeth benodol neu ei fod wedi dilyn hyfforddiant ar reoli heintiau er mwyn rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel. Gallai'r meini prawf fod yn berthnasol hefyd i'r cyfarpar a ddefnyddir i roi'r driniaeth arbennig neu mewn cysylltiad â hynny, er enghraifft bod tapiâu na weithredir â'r dwylo ar gael yn y lleoliad lle y caiff triniaethau arbennig eu rhoi.

Y bwriad felly yw nodi yn y rheoliadau hyn y meini prawf trwyddedu sy'n ymwneud â phob math o arfer. Y bwriad hefyd yw ymdrin â'r meini prawf trwyddedu gofynnol ar gyfer rhoi triniaethau arbennig yn ystod cynadleddau yn y rheoliadau hyn.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Yn ogystal â gallu'r rheoliadau i ystyried y gwahanol driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau ar gyfer eu rhoi, byddant hefyd yn rhoi cysondeb o ran y meini prawf trwyddedu ac yn sicrhau bod yr un meini prawf yn cael eu cymhwyso ledled Cymru. Bydd y rheoliadau'n sicrhau bod y gofynion sydd i'w bodloni gan y bobl hynny sy'n gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig yn dryloyw ac yn gyraeddadwy.

Mae angen y rheoliadau hefyd i roi hyblygrwydd ac i sicrhau y gellir diwygio'r meini prawf trwyddedu dros amser.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Amodau trwyddedu mandadol
RHAN O'R BIL	Rhan 3
ADRAN	52(1), 52(3)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD/CYFARWYDDYD/CANLLAWIAU	
<p>Mae Adran 52 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r amodau trwyddedu mandadol ynglŷn â'r trwyddedau triniaethau arbennig. Bydd yr amodau trwyddedu mandadol yn rhoi manylion y gofynion y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded triniaeth arbennig ymlynu atynt. Caiff yr amodau trwyddedu</p>	

mandadol fod yn berthnasol i (ymhlith pethau eraill):

- (a) y fangre neu'r cerbyd lle y bwriedir rhoi triniaeth arbennig, neu lle y bwriedir cadw neu baratoi cyfarpar neu ddeunydd a ddefnyddir mewn triniaeth arbennig;
- (b) y modd y bwriedir rhoi triniaeth arbennig (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, cyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth, dillad amddiffynnol ac ati);
- (c) gwybodaeth sydd i'w darparu gan ddeiliad y drwydded a gwybodaeth ar ei gyfer, a'r ymgynghoriad sydd i'w gynnal cyn ac ar ôl rhoi triniaeth arbennig;
- (ch) cadw cofnodion;
- (d) arddangos trwydded;
- (dd) amgylchiadau y mae cais i amrywio trwydded i gael ei wneud o danynt; ac
- (e) dychwelyd trwydded, ar ôl iddi ddod i ben, i'r awdurdod a'i dyroddodd.

Hefyd, caiff y rheoliadau wneud gwahanol ddarpariaethau ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, ar gyfer gwahanol driniaethau arbennig, ac ar gyfer y gwahanol amgylchiadau ar gyfer rhoi triniaeth arbennig. Gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys pa mor aml a rheolaidd y caiff y driniaeth ei rhoi neu'r cyfnod pan gaiff triniaeth ei rhoi.

Cyn gwneud y rheoliadau, mae Adran 53 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a oes pobl yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau y rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt, ac os felly, i ymgynghori â nhw fel sy'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl hynny sydd yn cael eu heffeithio cyn rhoi'r rheoliadau ar waith.

BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bwriad y polisi yw sicrhau na fydd cyflwr ffisegol y fangre neu'r cerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig yn peri risg o niwed i iechyd dynol. Bydd manylion am sut y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded gadw cofnodion, arddangos y drwydded, yr amgylchiadau sy'n pennu ei bod yn ofynnol i wneud cais i amrywio trwydded, a sut y mae'n rhaid dychwelyd y drwydded pan fydd yn dod i ben, wedi eu nodi yn yr amodau.

Caiff yr amodau trwyddedu mandadol bennu hefyd y dulliau cywir o roi triniaeth arbennig benodedig. Gallai hyn gynnwys manylion am y cyfarpar y dylid ei ddefnyddio, y dull y dylid ei ddefnyddio o roi'r driniaeth, a'r gofynion o ran y dillad amddiffynnol y mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded eu gwisgo. Gellid hefyd pennu manylion yr wybodaeth y mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded ei darparu i

gwsmeriaid cyn ac ar ôl rhoi triniaeth arbennig, yn yr amodau.

Y bwriad yw nodi yn y rheoliadau hyn yr amodau trwyddedu mandadol ar gyfer pob math o arfer. Y bwriad hefyd yw ymdrin â'r amodau sy'n llywodraethu arferion triniaeth arbennig yn ystod cynadleddau yn y rheoliadau hyn.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Yn ogystal â gallu'r rheoliadau i ystyried y gwahanol driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau ar gyfer eu rhoi, bydd y rheoliadau hefyd yn darparu cysondeb o ran yr amodau trwyddedu mandadol ac yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gorfodi'r un amodau mewn cysylltiad â thriniaethau arbennig penodedig. Bydd y rheoliadau hefyd yn sicrhau bod yr hyn sy'n ofynnol o'r rhai hynny sydd â thrwydded triniaeth arbennig yn dryloyw ac yn gyraeddadwy.

Mae angen y rheoliadau hefyd i ddarparu hyblygrwydd a sicrhau y gellir diwygio'r amodau trwyddedu dros amser.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Rhoi triniaeth arbennig yng nghwrs busnes: gofyniad i gael cymeradwyaeth
RHAN O’R BIL	Rhan 3
ADRAN	58(6)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 58 yn sefydlu bod yn rhaid i unigolyn sy’n cynnal busnes y rhoddir triniaeth arbennig yng nghwrs y busnes hwnnw gydymffurfio â dau ofyniad cymeradwyo. Y gofyniad cyntaf yw bod y driniaeth yn cael ei rhoi mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol o dan Adran 59. Mae’r ail ofyniad yn sicrhau bod mangre neu gerbyd, unwaith y’i cymeradwyir, yn cydymffurfio â’r amodau cymeradwyo mandadol cymwys (a ddarperir ar eu cyfer mewn is-ddeddfwriaeth - Adran 59(3)(c)).</p> <p>Mae’r pŵer hwn yn rhoi’r gallu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i esemptio mangreoedd neu gerbydau penodol o’r gofynion cymeradwyo.</p> <p>Caniateir i fangreoedd neu gerbydau gael eu disgrifio yn y rheoliadau drwy gyfeirio at yr unigolion sy’n eu rheoli; y math o weithgareddau a gynhelir ynddynt, y gwahanol amgylchiadau ar gyfer rhoi triniaeth arbennig ynddynt; neu nifer yr unigolion sy’n rhoi triniaethau arbennig.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio mangreoedd neu gerbydau penodol o’r naill ofyniad cymeradwyo neu’r llall neu’r ddau ofyniad cymeradwyo. Er enghraifft, gallai mangre lle caiff triniaeth arbennig ei rhoi gan unigolyn sydd wedi ei esemptio, fod wedi’i esemptio. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu bod mathau penodol o fangreoedd, fel meddygfeydd meddygon teulu neu ysbytai, wedi’u hesemptio o’r gofyniad i gael eu cymeradwyo.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Bydd Gweinidogion Cymru yn cadw’r cyfrifoldeb am benderfynu pa ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau sydd wedi’u hesemptio o’r gofyniad i gael eu cymeradwyo. Gan na fydd yn ofynnol i’r awdurdod lleol gymeradwyo mangreoedd neu gerbydau</p>	

sydd wedi'u hesemptio ac o ganlyniad ychydig iawn neu ddim swyddogaeth fydd ganddynt wrth oruchwylio'r modd o roi triniaethau arbennig ynddynt, mae'n bwysig sicrhau bod triniaethau arbennig dim ond yn cael eu rhoi mewn mangreoedd neu gerbydau yr ystyrir eu bod yn addas.

Mae angen y rheoliadau hefyd i ddarparu hyblygrwydd ac i sicrhau y gellid diwygio esemptiadau dros amser.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Cymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig
RHAN O'R BIL	Rhan 3
ADRAN	59(3), 59(7), 59(8)
DULL O DDWYN I RYM	59(3) - Cadarnhaol 59(7), 59(8) - Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r Adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau.</p> <p>Rhaid i reoliadau a wneir o dan Adran 59(3) gwmpasu'r meini prawf sydd i'w bodloni er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu, yr amgylchiadau ar gyfer caniatáu cais am gymeradwyaeth, a'r broses i ymgeisydd gyflwyno apêl pan gaiff cais ei wrthod. Hefyd, bydd y rheoliadau'n pennu'r amodau (yr "amodau cymeradwyo mandadol") y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw er mwyn cadw cymeradwyaeth.</p> <p>Caiff rheoliadau sy'n berthnasol i Adran 59(7) hefyd ddarparu ar gyfer y modd o wneud cais am gymeradwyaeth a'r modd yr ymdrinnir â'r cais hwnnw (gan gynnwys talu ffi), yr amgylchiadau pan na ddylid rhoi cymeradwyaeth, neu y caiff ei ganiatáu yn ôl disgrisiwn awdurdod lleol, a'r broses a fydd yn berthnasol wrth adnewyddu cymeradwyaeth.</p> <p>Hefyd, gallai rheoliadau a wneir dan Adran 59 wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau; ar gyfer gwahanol driniaethau arbennig; a'r gwahanol amgylchiadau ar gyfer rhoi triniaeth arbennig.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn Adran 59(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth benodol ynglŷn â rhoi triniaethau arbennig mewn mangreoedd a cherbydau. Gan y bydd y rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a gwahanol amgylchiadau, ceir addasu'r gofynion a bennir gan y rheoliadau, gan gynnwys y meini prawf a'r amodau cymeradwyo mandadol, i'r arfer benodol o roi triniaethau arbennig. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol bod gan y fangre gyflenwad digonol a chyson o ddŵr poeth ac oer o'r tap, bod cyfleusterau golchi dwylo addas ar gael (er enghraifft tapiau na weithredir â'r dwylo), a'i bod yn ofynnol i unrhyw arwyneb a allai fod wedi ei heintio â gwaed neu</p>	

hylif arall o'r corff fod yn anhreiddiadwy ac yn addas i'w lanhau'n effeithiol.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Yn ogystal â gallu'r rheoliadau i ystyried y gwahanol driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau ar gyfer eu rhoi, bydd y rheoliadau'n darparu cysondeb o ran mangreoedd a cherbydau sydd wedi eu cymeradwyo ac yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru â'r un gofynion o ran triniaethau arbennig penodedig. Bydd y rheoliadau hefyd yn sicrhau bod y gofynion o ran mangreoedd a cherbydau sydd wedi eu cymeradwyo yn dryloyw ac yn gyraeddadwy.

Mae angen y rheoliadau hefyd i ddarparu'r hyblygrwydd gofynnol er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â	Ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig o'r rhestr
RHAN O'R BIL	Rhan 3
ADRAN	76(1)
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig yn Adran 46 drwy ychwanegu math neu ddisgrifiad o driniaeth at y rhestr neu ddileu math neu ddisgrifiad o driniaeth oddi arni, neu amrywio cyfeiriad at fath neu ddisgrifiad o driniaeth.</p> <p>Caniateir i driniaeth gael ei disgrifio drwy gyfeirio at (ymhlith pethau eraill) yr unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth, neu'r unigolyn sy'n cael y driniaeth.</p> <p>Er mwyn ychwanegu triniaeth i'r rhestr rhaid i Weinidogion Cymru fod o'r farn bod y weithdrefn yn gallu cael ei rhoi at ddibenion esthetig neu therapiwtig a bod rhoi'r driniaeth at y dibenion hynny yn gallu achosi niwed i iechyd dynol. Diffinnir niwed i</p>	

iechyd dynol yn Adran 77(4) ac mae'n cynnwys niwed i iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolyn.

BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig yn y dyfodol. Gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer pe byddai'n amlwg bod triniaeth arbennig benodol a gaiff ei roi at ddibenion esthetig neu therapiwtig yn achosi niwed i iechyd dynol. Er enghraifft, oherwydd y cynnydd ym mhoblogrwydd tatŵio, mae'n bosibl y bydd y galw am driniaethau cael gwared ar datŵs yn cynyddu yn fuan. Gallai'r pŵer hwn felly gael ei ddefnyddio o bosibl i ychwanegu triniaethau cael gwared ar datŵs i'r rhestr o driniaethau arbennig yn Adran 46.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Mae'n bosibl bod triniaethau eraill sy'n cael eu rhoi at ddibenion esthetig neu therapiwtig ac sydd â'r potensial i achosi niwed i iechyd dynol yn bodoli neu'n cael eu datblygu gan y diwydiant. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i ddatblygiadau yn y sector triniaethau arbennig, a sicrhau bod y rhestr o driniaethau arbennig yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol. Bydd y pŵer felly yn sicrhau bod y gofynion trwyddedu yn ystyried arferion a thueddiadau sy'n newid, mewn sector sy'n esblygu'n gyflym. Mae hefyd yn fodd o wneud diwygiadau priodol i'r rhestr sy'n haws na diwygio deddfwriaeth sylfaenol ar bob achlysur unigol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHEOLIADAU'N YMWNEUD Â

Dehongliad o "dyllu'r corff"

RHAN O'R BIL	Rhan 3
ADRAN	77(1)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r Adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o "dyllu'r corff" trwy ddisgrifio eitemau a allai gael eu mewnbllannu yng nghorff unigolyn.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru ymestyn y diffiniad o "dyllu'r corff" er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gosod gwrthrychau, heblaw am emwaith ar gorff unigolyn. Gellir gosod gwrthrychau megis "plygiau cnawd" yn y corff i ymestyn y croen yn raddol, er enghraifft y clustiau. Gallai'r rheoliadau gynnwys felly "plygiau cnawd" er mwyn i'r gwrthrychau hyn gael eu cynnwys yn y diffiniad o "dyllu'r corff" yn y dyfodol.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae amrywiaeth o wrthrychau, heblaw am emwaith, y gellid ei osod ar gorff unigolyn. Er mwyn i'r diffiniad o "dyllu'r corff" barhau i fod yn effeithiol ac adlewyrchu'r amrywiaeth o wrthrychau y gellid eu mewnbllannu yn y corff, mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn ofynnol i alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i dueddiadau sy'n newid a sicrhau bod y diffiniad yn parhau i fod yn gyfredol.</p> <p>Mae'r pŵer i wneud rheoliadau hefyd felly yn rhoi dull haws o ddiwygio'r diffiniad heb ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan fod hwn yn fater technegol y gallai fod angen ei ddiweddarau o dro i dro.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHAN 4 – RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF

Nid oes darpariaethau yn y Rhan hon sy'n darparu ar gyfer creu is-ddeddfwriaeth.

RHAN 5 –GWASANAETHAU FFERYLLOL

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Paratoi a chyhoeddi asesiad o angen ar gyfer gwasanaethau fferyllol yn ei ardal gan Fwrdd Iechyd Lleol
RHAN O’R BIL	Rhan 5
ADRAN	89
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae’r adran hon yn mewnosod Adran 82A i Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae Adran 82A yn rhoi dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion ar gyfer gwasanaethau fferyllol yn ei ardal.</p> <p>Mae Adran 82A hefyd yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau. Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau, bennu dyddiad i’r Bwrdd Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi ei asesiad cyntaf; gwneud darpariaeth am yr amgylchiadau i’r Bwrdd Iechyd Lleol adolygu, ac os yw’n briodol, diwygio ei asesiad; a gwneud darpariaeth am y modd o gyhoeddi asesiad.</p> <p>Gall rheoliadau wneud darpariaethau eraill ynglŷn â pharatoi, cyhoeddi, adolygu a diwygio asesiad, a allai gynnwys pethau megis yr wybodaeth i’w chynnwys yn yr asesiad, y graddau y dylai asesiad ystyried anghenion yn y dyfodol a materion eraill, y gofynion i ymgynghori, a gofynion gweithdrefnol.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd Lleol wedi gwneud ac yn cynnal asesiad o’r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Rhaid i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol i bobl yn yr ardal erbyn dyddiad penodol. Er mwyn gwneud y gorau o swyddogaeth Iechyd y cyhoedd fferyllfeydd cymunedol, mae’n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol ddeall yn llawn yr angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal wrth wneud trefniadau i’w darparu.</p> <p>Bydd y rheoliadau hefyd yn darparu cysondeb o ran yr asesiad o’r anghenion fferyllol a sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn darparu yr un lefel o wybodaeth, ac yn cydymffurfio â’r un gofynion gweithdrefnol.</p> <p>Bydd rhoi mwy o fanylion technegol ynglŷn â’r broses o baratoi asesiad o anghenion fferyllol trwy reoliadau yn darparu hyblygrwydd priodol er mwyn i fanylion y broses gael eu diwygio o dro i dro, heb yr angen i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.</p>	

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)
Amherthnasol

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Penderfynu ceisiadau gan bersonau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol
RHAN O’R BIL	Rhan 5
ADRAN	90(3), (4), (5), (6), (7), (8), (10)
DULL O DDWYN I RYM	Gweithdrefn negyddol

DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU

Mae’r pwerau yn yr Adran hon yn ymwneud â phwerau i wneud rheoliadau sydd ar hyn o bryd yn Adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae’r darpariaethau yn yr Adran hon yn diwygio’r pŵer presennol i wneud rheoliadau.

Mae Adran 90(3) yn mewnosod Adran 2B newydd yn Adran 83 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae Adran 2B yn darparu, oni nodir yn wahanol mewn rheoliadau, y ceir caniatáu cais i gynnwys person ar restr fferyllol nad yw eisoes ar y rhestr, neu gais gan berson sydd eisoes ar restr, dim ond os yw’r Bwrdd Iechyd Lleol wedi’i fodloni, ar ôl ystyried ei asesiad diweddaraf o anghenion fferyllol ac unrhyw faterion a nodir yn y rheoliadau, y byddai caniatáu cais yn bodloni angen yn ei ardal am y gwasanaethau y gwneir y cais amdanynt.

Mae Adran 90(7) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n pennu’r amgylchiadau y caiff Bwrdd Iechyd Lleol wahodd personau i wneud cais i gael eu cynnwys ar restr fferyllol.

Mae Adran 90(7) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n pennu’r amgylchiadau y caiff Bwrdd Iechyd Lleol, neu y mae’n ofynnol iddo, dynnu person oddi ar ei restr fferyllol am dorri un o delerau neu amodau’r trefniadau a wnaed gyda’r Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau fferyllol. Bydd y rheoliadau yn gosod amodau ar achos o’r fath, yn benodol ei bod yn ofynnol rhoi rhybudd i’r person cyn tynnu’r person oddi ar restr fferyllol Bwrdd Iechyd Lleol, yn nodi manylion sut y torrwyd y telerau a’r amodau, a’r camau sy’n ofynnol i ddatrys y sefyllfa, a bod y person hwnnw wedyn wedi methu â chydymffurfio â’r rhybudd hwnnw.

Mae Adran 90(10) yn nodi, os yw’r rheoliadau a wneir dan Adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â thynnu unigolyn oddi ar restr fferyllol, ei bod yn ofynnol i’r rheoliadau ddarparu ar gyfer rhoi rhybudd am fwriad Bwrdd Iechyd Lleol i dynnu’r unigolyn oddi ar y rhestr a’r hawl i nodi sylwadau.

BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bydd y rheoliadau yn sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol wedi ei halinio’n agos ag anghenion y dinasyddion sy’n defnyddio fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, yn benodol trwy sicrhau bod personau sy’n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol yn gwneud hynny mewn ardaloedd lle y mae’r Bwrdd Iechyd Lleol wedi nodi bod angen am y gwasanaethau hynny, a phan fo angen, drwy

ganiatáu i Fyrddau Iechyd Lleol gyflwyno gwahoddiadau i ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd lle mae angen heb ei fodloni.

Bydd y rheoliadau hefyd yn sicrhau, pan fo personau sy'n darparu gwasanaethau fferyllol yn methu â gwneud hynny'n effeithiol, gan dorri telerau'r gwasanaeth, bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu cymryd camau graddol i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol. Bydd hyn yn gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau.

PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?

Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol i bobl yn ei ardal. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar swyddogaeth iechyd y cyhoedd fferyllfeydd cymunedol, mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol ystyried yr angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal wrth wneud trefniadau i'w darparu, ac i gymryd camau i wella perfformiad gwael.

Bydd darparu mwy o fanylion technegol am y broses o benderfynu ceisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol, a'r broses ar gyfer tynnu unigolyn oddi ar restr fferyllol, yn rhoi hyblygrwydd priodol i fanylion y broses gael eu diwygio o dro i dro, heb yr angen i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)

Amherthnasol

RHAN 6 – DARPARU TOILEDAU

Nid oes darpariaethau yn y Rhan hon sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

RHAN 7 – CYFFREDINOL

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Darpariaethau canlyniadol a throsiannol
RHAN O’R BIL	Rhan 7
ADRAN	100(1)
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol neu gadarnhaol
DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 100(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i’w caniatáu i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig neu ganlyniadol neu unrhyw ddarpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed priodol mewn cysylltiad â’r Bil.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Bydd y rheoliadau’n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau i ddarpariaethau fel yr amlinellir uchod er mwyn gweithredu darpariaethau’r Bil yn llawn.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
<p>Mae’r rheoliadau hyn yn ofynnol i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu arbed os ystyrir hynny’n angenrheidiol at ddibenion gweithredu darpariaethau’r Bil yn llawn. Byddai newidiadau o’r fath yn gymharol fach a bydd eu gwneud trwy reoliadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarpariaethau o’r fath gael eu gwneud heb yr angen i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.</p> <p>Os yw’r rheoliadau yn diwygio neu’n dirymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, byddant yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Fel arall, byddant yn destun y weithdrefn negyddol.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidog ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU’N YMWNEUD Â	Darpariaethau cychwyn
RHAN O’R BIL	Rhan 7
ADRAN	101(2)
DULL O DDWYN I RYM	Nid oes yr un ddarpariaeth yn gymwys i orchymyn cychwyn
DISGRIFIAD O’R PŴER	
